



Boicotio gweithgareddau asesu a marcio

Nodyn briffio ar gyfer myfyrwyr

Bydd aelodau o Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU) yn dechrau boicot cynhwysfawr o holl osod a marcio, gwaith cwrs ac aseiniadau hyd nes y canfyddir datrysiad i'r anghydfod dros bensiynau.

Rydym yn gwybod y bydd myfyrwyr yn pryderu am effaith debygol y boicot ac rydym yn awyddus i esbonio beth sy'n digwydd a pham.

Beth gaiff ei gynnwys yn y boicot hwn?

Dan foicot o'r fath, bydd aelodau o'r UCU mewn prifysgolion yn rhoi'r gorau i holl waith o ran gosod a marcio, gwaith cwrs ac aseiniadau, sydd felly'n cynnwys yr holl waith a gyflwynir gan fyfyrwyr i'w asesu.

A fydd y gweithredu yma'n effeithio ar bob myfyriwr?

Bydd. Mae'r boicot yn perthyn i unrhyw osod neu farcio sy'n cyfrannu at gyflwyno neu ddsbarthiad unrhyw radd, tystysgrif, diploma neu unrhyw gymhwyster academaidd neu broffesiynol arall. Mae hefyd yn berthnasol i gynnydd o un cyfnod astudio i'r nesaf (er enghraifft o MPhil i DPhil).

Bydd aelodau UCU yn ymgymryd â phob dyletswyddau eraill – dysgu dosbarthiadau, cynnal darlithoedd ayyb – fel arfer.

Pam bod staff y brifysgol yn gweithredu fel hyn?

Mae anghydfod rhwng yr UCU â chorff cyflogwyr y prifysgolion (UUK)* dros ddinistrio sylweddol a pharhaol ein pensiynau. Rydym wedi ystyried y penderfyniad hwn yn ofalus iawn. Nid yw ein haelodau eisiau gweithredu lle bo lles myfyrwyr yn cael ei niweidio. Ond mae aelodau'r UCU, eich darlithwyr a staff ategol yn haeddu'r hawl i gael pensiwn teg a theilwng.

Beth yw cefndir yr anghydfod?

Mae corff y cyflogwyr wedi gwneud cynigion dinistriol i'n pensiynau. Byddent yn golygu:

- colled o filoedd o bunnoedd y flwyddyn
- pensiwn gwaeth na phensiwn y cydweithwyr sy'n gweithio yn y prifysgolion 'newydd' sy'n perthyn i Gynllun Pensiwn yr Athrawon (CPA)
- problem ddifrifol bosib o ran recriwtio a chadw'r staff gorau.

Ydy eich cynllun pensiwn yn gynaliadwy?

Ydy, caiff rhagamcaniad o ddiffyg ariannol a wnaed gan y Cynllun Pensiwn Prifysgol (CPP) ei herio'n gryf gan yr UCU a'n harbenigwyr ariannol. Ers 2011, mae

*UUK – Universities UK yw corff cynrychioli'r cyflogwyr (is-gangellorion a phrifathrawon)

buddsoddiadau'r gronfa wedi tyfu o £8bn ac mae llog ar y buddsoddiadau yma wedi bod yn uwch na cyfartaledd enillion a chwyddiant. Llynedd derbyniodd aelod staff y gronfa sydd ar y cyflog uchaf gynnydd o 50% yn ei incwm (i £900k) mewn cydnabyddiaeth am 'berfformiad cyson'.

Onid yw'r gweithredu yma'n hunanol?

Credwn ei bod o fudd i chi bod prifysgolion yn gallu recriwtio a chadw'r staff gorau. Credwn bod y cynigion hyn yn perygu hynny.

Mae'r UCU yn ceisio cyd-drafod â chorff cyflogwyr prifysgolion (UUK) i sicrhau bod ein haelodau'n derbyn pensiwn teg, un y mae llawer ohonynt wedi bod yn talu i mewn iddo gydol eu gyrfa.

Rydym yn gwybod y bydd y gweithredu hwn yn tarfu arnoch

Nid yw'r un o'n haelodau, eich darlithwyr na staff ategol, yn dod i'r gwaith gyda'r bwriad o weithredu mewn unrhyw fodd sy'n effeithio'n negyddol ar fyfyrwyr.

Ein haelodau yw'r bobl sy'n cefnogi, addysgu, cynnal ymchwil a darparu addysg o safon uchel ar gyfer miliynau o bobl ifanc, ac maent yn angerddol ynglyn â'r hyn maent yn ei wneud. Ond ni allwn sefyll o'r neilltu tra bod newidiadau andwyol a pharhaol yn cael eu gwneud i'n cynllun pensiwn.

Mae pob diwrnod y bydd corff cyflogwyr y brifysgol (UUK) yn caniatáu i'r anghydfod yma i barhau yn ddiwrnod arall o darfu ar ansawdd eich addysg. Mae angen iddynt ddatrys yr anghydfod hwn ar unwaith drwy ddarparu atebion sy'n amddiffyn buddion pensiwn ac yn sicrhau cynaliadwyedd y gronfa.

Gallai'r cyflogwyr ddod â'r anghydfod hwn i ben heddiw

Mewn gwirionedd, mae'r anghydfod hwn yn ddiangen. Gallai corff y cyflogwyr (UUK) ddod â hyn i ben heddiw pe baent eisiau gwneud hynny, oherwydd rydym yn gwybod bod y cynllun pensiwn yn gynaliadwy ac maent mewn sefyllfa i wneud cynnig teg.

Sefwch gyda ni

Pan fyddwch yn mynd i mewn i addysg uwch, mae gennych hawl i wybod y gallwch ddisgwyl addysgu ac amser cyswllt o'r safon uchaf. Pan welwch fod rywbeth yn tarfu ar hyn, mae'n ddigon naturiol i chi deimlo'n ddig tuag at eich darlithwyr neu eu hundebau.

Ond buasem yn gofyn i chi'n daer i ystyried y ffeithiau sydd tu ôl i'r anghydfod hwn a'r effaith andwyol y gallai'r cynigion eu cael ar ein haelodau, eich darlithwyr a staff ategol – a, phe bai prifysgolion yn methu recriwtio a chadw'r staff gorau yn sgil yr argymhellion hyn, eich profiad addysgol.

Beth allwch chi ei wneud?

Rydym yn gofyn i chi e-bostio eich his-ganghellor neu brifathro yn galw arnynt i ddwyn pwysedd ar eu cyd-drafodwyr cenedlaethol i wneud cynnig teg a chynaliadwy.

Siaradwch â'ch Undeb Myfyrwyr ynglyn â sut y gallwch chi gyfranogi.

Siaradwch â'ch darlithwyr a staff eraill y brifysgol, a rhowch wybod iddynt eich bod yn eu cefnogi.

